 



ATODLEN 2

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

## RHAN 3

PWERAU CYFFREDINOL

*Pwyllgorau*

7 (1) Caiff GCC sefydlu pwyllgorau.

(2) Caiff pwyllgorau a sefydlir o dan is-baragraff (1) sefydlu is-bwyllgorau.

(3) Caiff pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn gynnwys personau nad ydynt yn aelodau o GCC neu fod â phersonau o'r fath yn unig.

(4) Caiff GCC dalu tâl, treuliau a lwfansau i unrhyw berson—

(a) sy'n aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlir o dan y paragraff hwn, a

(b) nad yw'n aelod o GCC nac yn aelod o'i staff.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 2 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** Atod. 2 para. 7 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(b)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

*Dirprwyo*

8 (1) Caiff GCC drefnu i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gael eu harfer gan unrhyw un neu ragor—

(a) o'i bwyllgorau,

(b) o'i is-bwyllgorau,

(c) o'i aelodau, neu

(d) o'i staff.

(2) Nid yw is-baragraff (1) yn effeithio ar gyfrifoldeb GCC am arfer swyddogaethau dirprwyedig nac ar ei allu i arfer swyddogaethau dirprwyedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Atod. 2 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I4** Atod. 2 para. 8 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(b)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

*Pwerau atodol*

9 Caiff GCC wneud unrhyw beth y bwriedir iddo hwyluso arfer ei swyddogaethau, neu sy'n ffafriol i'w harfer neu'n gysylltiedig â'u harfer.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, RHAN 3. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I5** Atod. 2 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I6** Atod. 2 para. 9 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(b)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, RHAN 3.